| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| DYDDIAD | **15 Hydref 2020** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 a'r Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;**<br>• **Adroddiad 'ISA260' Deloitte;**<br>• **Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFRIFON 2019/20

Roedd bwriad eleni i'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Gorffennaf 2020, ond yn sgil yr argyfwng Covid-19 a'r cyfnod clo, bu i Lywodraeth Cymru ymestyn yr amserlen gan gynnwys oedi'r cyfnod hawliau'r etholwyr i archwilio'r cyfrifon. Felly, cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2019/20 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Gorffennaf 2020, pryd bu craffu priodol.

Er bod bwriad gwreiddiol i gwblhau'r archwiliad gan gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 14 Medi 2020, bu oediad efo'r archwiliad yn ymwneud â phrisio safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor. O ganlyniad, mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu 15 Hydref 2020, sydd o fewn yr amserlen statudol ddiwygiedig o 30 Tachwedd 2020 eleni.

## 2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte.

## 3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2019/20

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2019/20. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 8 a 15 o adroddiad 'ISA260' Deloitte.

## 4. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (ôl-archwiliad)

**5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig eleni (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

**6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG**

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.